# Buddsoddi er mwyn creu miliwn o siaradwyr Cymraeg - Cyllideb Llywodraeth Cymru 2017/18

Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Medi 2016

## 1.Cyflwyniad

1.1. Cefnogwyd ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg dan y Llywodraeth newydd gan y prif bleidiau yn y Cynulliad a dangoswyd cefnogaeth iddi hefyd gan nifer fawr o ymgeiswyr o bob plaid, gan gynnwys Gweinidog y Gymraeg a'r Prif Weinidog, ynghyd â nifer fawr o bobl ar hyd a lled y wlad. Dywed y weledigaeth:

> *“Dwi eisiau bod yn un mewn miliwn! Dwi eisiau:*
>
> *• cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn*
>
> *• atal yr allfudiad a chynnal cymunedau ynghyd â sicrhau llwybrau i ddod â Chymry Cymraeg yn ôl i’w cymunedau*
>
> *• defnyddio’r Gymraeg ymhob rhan o fywyd er mwyn sicrhau mai’r Gymraeg yw’r iaith naturiol o’r crud i’r bedd”*

1.2. Yn ein dogfen "Miliwn o Siaradwyr Cymraeg" a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2015, fe wnaethon ni amlinellu degau o bolisïau er mwyn cyrraedd y nodau uchelgeisiol uchod. Dyma rai o'r prif gynigion yn y ddogfen:

> (i) Gweithredu argymhellion allweddol adroddiad yr Athro Sioned Davies ynghylch dysgu'r Gymraeg gan sefydlu un continwwm dysgu’r Gymraeg, peth addysg cyfrwng Cymraeg i bawb, a gosod targedau statudol eraill er mwyn gwella'r ddarpariaeth.
>
> (ii) Ymrwymo i barhad y Coleg Cymraeg yn y tymor hir ac ymestyn ei gyfrifoldebau i addysg bellach, gan gynnwys mesurau i annog myfyrwyr i barhau â'u hastudiaethau drwy'r Gymraeg, megis sefydlu amod ariannol drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i sicrhau cynnal a chynyddu nifer y neuaddau Cymraeg eu hiaith, boed hynny drwy brifysgolion neu’r Coleg Cymraeg.
>
> (iii) Cyflwyno Bil Cynllunio’r Gweithlu a fyddai'n sefydlu targedau a chyfrifoldebau clir er mwyn sicrhau cyflenwad cynyddol o weithwyr Cymraeg, gan adeiladu ar y farchnad lafur Gymraeg a arweinir gan Fentrau Iaith Cymru
>
> (iv) Dylai unrhyw ad-drefnu llywodraeth leol gynyddu nifer yr awdurdodau sy’n gweithio'n fewnol drwy’r Gymraeg, gan osod cymalau mewn deddfwriaeth er mwyn sicrhau hynny.
>
> (v) Sefydlu Cronfa Ariannu Cynnal Gwasanaethau ac Adnoddau Cymunedol i ddiogelu asedau cymunedol allweddol a fyddai'n cynnig symiau cymharol fach o arian i grwpiau cymunedol er mwyn cynnal gwasanaethau a gofodau lle mae’r Gymraeg yn brif iaith y lleoliad neu'r grŵp.
>
> (vi) Diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn ymestyn ei sgôp i gynnwys rhagor o'r sector breifat megis archfarchnadoedd a banciau, sefydlu hawl cyffredinol i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg a gwella’r broses o osod Safonau ar gyrff.

(vii) Cyflwyno Bil Cartrefi Fforddiadwy i Bawb a fyddai'n cynnwys nifer o fesurau i wneud y stoc tai presennol yn fforddiadwy i bobl leol, ynghyd â gwreiddio'r gyfundrefn mewn anghenion lleol, gan gynnwys sefydlu'r hawl i rentu, rhoi'r cyfle cyntaf i bobl leol brynu tai a sefydlu'r rhagdybiaeth mai seilio datblygiadau ar anghenion lleol ddylai fod y brif egwyddor sy'n arwain ein polisïau tai ac eiddo.

(viii) Dylid sefydlu darlledwr aml-lwyfan Cymraeg newydd a fyddai'n creu cynnwys, er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn enwedig ymysg pobl ifanc, gan weithredu ar-lein yn bennaf, ond ar radio a theledu yn ogystal, gan gynorthwyo gwasanaethau S4C a Radio Cymru a rhyddhau'r darlledwyr presennol o'r baich o geisio gwasanaethu'r gynulleidfa gyfan.

1.3. Yn dilyn ymrwymiad ym maniffesto'r Blaid Lafur yn etholiadau'r Cynulliad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2016 ei bod am anelu at greu miliwn o siaradwyr Cymraeg a'i bod am greu strategaeth er mwyn cyrraedd y nod dros y degawdau nesaf. Mae "Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg" yn nod'r canlynol:

*"Tra bo ein gweledigaeth yn un hirdymor, a bod nifer y siaradwyr yn rhywbeth y gellir ei fesur yn ystyrlon fesul cenhedlaeth, rhaid i ni weithredu a gosod y seiliau nawr. A rhaid i'r gweithredoedd hynny adlewyrchu maint ein huchelgais."*

Teg dweud felly mai cynigion cyllideb y Llywodraeth ar gyfer 2017-18 fydd y cyfle cyntaf iddynt ddangos eu bod, a benthyg geiriau Gweinidog y Gymraeg, 'o ddifrif' am eu huchelgais.

## 2. Buddsoddi – Un o gonglfeini strategaeth i greu'r miliwn

2.1 Os yw'r Llywodraeth o ddifrif am ei huchelgais o gynyddu defnydd a nifer siaradwyr y Gymraeg yn sylweddol, mae'n rhaid iddynt ymrwymo i fuddsoddi'n sylweddol, a hynny dros y tymor hir.

2.2. Mae Cymru yn tanfuddsoddi'n ddifrifol yn y Gymraeg ar hyn o bryd ac felly nid ydym fel gwlad yn elwa'n llawn o'r manteision addysgol, diwylliannol ac economaidd a allai ddeillio o'n hiaith unigryw genedlaethol.

2.3. Yng Ngwlad y Basg, mae Llywodraeth y rhanbarth ymreolaethol yn gwario tua 1% o'i chyllideb ddatganoledig ar brosiectau i hyrwyddo'r Fasgeg; yng Nghymru mae'r ffigwr oddeutu 0.16%. Yn yr ardal honno, gwelwn fod y buddsoddiad yn dwyn ffrwyth, ac mae'n bosibl cymharu hynny gydag ardaloedd yng Ngwlad y Basg nad ydynt yn rhan o'r gymuned ymreolaethol.

2.4. Mewn adroddiad diweddar, amcangyfrifir bod y Fasgeg yn werth 4.2% o GDP economi Cymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg:

*"6.3% of employment generated by the economy of the BAC and 4.5% of Gross Added Value are linked to Basque. As an economic sector, 4.2 % of the Gross Domestic Product of the Autonomous Community corresponds to Basque, the importance approaching that of the tourism sector in the Basque economy (5.8 % of GDP). "*[1]

---

[1] Gwerth ac Effaith Economaidd y Fasgeg (Crynodeb Saesneg)
http://www.euskara.euskadi.eus/contenidos/informacion/value_economic_impact_basque/en_def/adjuntos/Euskararen%20eragin%20ekonomikoa_Laburpena_English%20AZKENA%202.pdf

2.5. Ar bapur mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y dadleuon hyn. Daeth Cynhadledd Fawr Llywodraeth Cymru, ymgynghoriad a gynhaliwyd yn dilyn canlyniadau Cyfrifiad 2011, i gasgliad clir bod angen llawer iawn mwy o fuddsoddiad er mwyn cyrraedd y nod:

> *"1.12. Cyllid ac adnoddau*
>
> *"Un thema gyffredinol, a chwbl allweddol, a fu'n rhedeg drwy'r holl gyfraniadau ym mhob cyfrwng oedd mater adnoddau. Nodwyd droeon, fod angen adnoddau digonol, gan gynnwys adnoddau cyllidol digonol, i weithredu'n effeithiol a dwyn y maen i'r wal.*
>
> *"Cafwyd galwadau cyson gydol y broses ar i'r Llywodraeth gynyddu ei buddsoddiad ariannol yn y Gymraeg er mwyn sicrhau gweithredu effeithiol."* Casgliadau'r Gynhadledd Fawr - Iaith fyw: dweud eich dweud (2013)[2]

2.6. Fodd bynnag, torrwyd y gwariant ar brosiectau penodol y Gymraeg yng nghyllideb 2016/17, a hynny o 5.9%. Dywedasom ar y pryd:

> *"Collfarnwn yn llwyr y toriad arfaethedig o 5.9% yn nhermau arian parod i'r gyllideb ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg, sy'n digwydd er gwaetha'r cynnydd o £120miliwn i refeniw Llywodraeth Cymru."*

2.7. Nawr bod y Llywodraeth wedi mabwysiadu targed o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, sef bron i ddwbl y nifer sydd gennym ar hyn o bryd, dyma'r cyfle i fuddsoddi'n sylweddol ac yn strategol er mwyn gosod seiliau ar gyfer y twf a ddaw yn yr iaith.

## 2.8. Buddsoddi mewn addysg – un o'r prif ffyrdd i gyrraedd y miliwn

2.9. Mae angen pecyn o bolisïau i gyrraedd y tri phrif nod a amlinellir yn mharagraff 1.1 uchod, ond, heb os, un o'r meysydd allweddol yw addysg. Mae sicrhau gweithlu – o athrawon i weithwyr blynyddoedd cynnar – sy'n gallu addysgu drwy'r Gymraeg fel bod digon o bobl ifanc i greu miliwn o siaradwyr rhugl eu Cymraeg yn gwbl hanfodol. Eto, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn yn ei dogfen ymgynghorol:

> *"Rydym yn glir bod y system addysg am fod yn allweddol o ran creu siaradwyr Cymraeg y dyfodol. Mae ein system addysg, wrth reswm, yn llwyr ddibynnol ar ein hathrawon. Ein blaenoriaeth fwyaf dros y pum mlynedd nesaf felly fydd cynyddu capasiti'r system addysg i ddiwallu'r angen i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, ac i ddiwallu'r angen i wella sut caiff y Gymraeg ei haddysgu yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg. Mae hynny'n golygu hyfforddi athrawon newydd a gwella sgiliau'r athrawon presennol. "*

2.10. Mae'n eglur fellybod rhaid mesur effaith y gyllideb hon yn unol â dyhead a ffon fesur glir y Llywodraeth ei hunan uchod. Os nad oes buddsoddiad sylweddol er mwyn cynyddu capasiti'r system addysg a'r gweithlu i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, bydd y Llywodraeth wedi methu ar y cyfle cyntaf.

## 3.Crynodeb o'n cynigion

3.1. Isod rydym yn amlinellu cynigion o ran buddsoddiadau sydd eu hangen er mwyn creu miliwn o siaradwyr Cymraeg, ac sy'n cyfateb i'r blaenoriaethau yn nogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar ei strategaeth iaith. Yn gryno, ymysg y camau rydym yn galw am fuddsoddiad a thargedau ychwanegol ar eu cyfer mae'r canlynol:

> (i) Gosod nod a dyddiad targed i gynyddu dros amser ganran y gyllideb ar brosiectau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg o 0.16% o'r gyllideb i 1%

---

[2] http://llyw.cymru/topics/welshlanguage/publications/a-living-language-have-your-say/?skip=1&lang=cy

(ii) Sefydlu cynlluniau gyda chefnogaeth ariannol sylweddol er mwyn sicrhau cynnydd cyflym yn nifer yr ymarferwyr addysg sy'n gallu dysgu drwy'r Gymraeg a chapasiti'r system i ddysgu Cymraeg, megis:

- Cynllun "Dewch 'nôl" i Gymru ar gyfer athrawon sy'n siarad Cymraeg sy'n gweithio mewn gwledydd eraill;
- Sefydlu ac ehangu canolfannau i hwyrddyfodiad a throchi ym mhob sir;
- Cynllun i annog siaradwyr Cymraeg i ymuno â'r gweithlu addysg; ac
- Adnoddau ychwanegol i wella sgiliau rhai sy'n hyfforddi i ymuno â'r gweithlu addysg

(iii) Cronfa i gefnogi sefydliadau ac ymarferwyr addysg i weithredu argymhellion yr Athro Sioned Davies ynghylch dysgu'r Gymraeg fel rhan o gyflwyno'r cwricwlwm newydd

(iv) Cyfres o fesurau i gynyddu nifer y gweithleoedd Cymraeg a nifer y swyddi cyfrwng Cymraeg, megis:

- Parciau busnes cyfrwng Cymraeg
- Ariannu rhaglen Marchnad Lafur Gymraeg Mentrau Iaith Cymru
- Adnoddau ychwanegol er mwyn gwella sgiliau Cymraeg gweithwyr cyrff sydd am anelu at weinyddiaeth fewnol Gymraeg megis Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Sir Gaerfyrddin

(v) Cronfa i sefydlu, ailsefydlu ac ehangu nifer y neuaddau preswyl cyfrwng Cymraeg

(vi) Sefydlu darlledwr aml-gyfrwng Cymraeg newydd i ehangu defnydd a phresenoldeb y Gymraeg ar-lein, ar radio a theledu

(vii) Ymestyn cylch gwaith y Coleg Cymraeg i addysg ôl-16 a hyfforddiant athrawon

(viii) Sefydlu Cronfa Ariannu Cynnal Gwasanaethau ac Adnoddau Cymunedol er mwyn cynnal ac ehangu gwasanaethau a gofodau lle mai'r Gymraeg yw prif iaith y lleoliad neu grŵp

(ix) Buddsoddiad sylweddol yn y prosiect Cymraeg i Blant er mwyn gwella trosglwyddiad iaith rhwng rhieni a phlant

(x) Sefydlu Cyngor y Gymraeg fel corff hyrwyddo'r Gymraeg corfforaethol ar wahân i Gomisiynydd y Gymraeg

3.2. Galwn hefyd am nifer o newidiadau i sicrhau bod cyllidebau eraill Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at gynyddu nifer y siaradwyr ynghyd â normaleiddio ei defnydd megis:

(i) Cynyddu canran y prentisiaethau i 20% cyfrwng Cymraeg
(ii) Amod ar arian cyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif – ni ddylai'r un ysgol na sefydliad addysg newydd agor gyda chanran is o addysg cyfrwng Cymraeg na 50%, neu drothwy uwch mewn siroedd lle mae mwyafrif yr ysgolion yn rhai cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.
(iii) Addysg i Oedolion yn y gymuned – 20% o'r cyrsiau yn rhai cyfrwng Cymraeg
(iv) Prif-ffrydio'r Gymraeg yn rhaglenni Dechrau'n Deg a Chymunedau'n Gyntaf

3.3. Fel cyfanswm, credwn fod angen dros £100 miliwn er mwyn rhoi'r cynlluniau hyn ar waith yn iawn. Hyd yn oed gyda'r buddsoddiad hwnnw, byddai'r Llywodraeth yn parhau i fuddsoddi llai na Chymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg, ond byddai'n gam mawr ymlaen. Credwn fod y cynlluniau yn gweddu gyda'r hinsawdd newydd yn dilyn yr refferendwm am ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd; mae Llywodraeth Prydain wedi datgan eu bod yn ailystyried eu polisi cyfuno cyllidol.

## 5.Cynigion penodol ar gyfer cynyddu buddsoddiad er mwyn cyrraedd nod y Llywodraeth

5.1. Mae'r Llywodraeth yn ei dogfen ymgynghorol yn pwysleisio pwysigrwydd cynllunio strategol hirdymor a gosod seilwaith cadarn ar gyfer y Gymraeg. Credwn fod angen sefydlogrwydd a sicrwydd o ran buddsoddiad ariannol hirdymor yn ogystal.

| Argymhelliad | Dyfyniadau perthnasol o ddogfen ymgynghorol Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru a gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|
| • **Llywodraeth Cymru i osod allan rhaglen i gynyddu gwariant ar y Gymraeg i 1% o'i chyllideb, gyda disgwyliad hefyd i'r cyrff mae'n eu hariannu glustnodi 1% ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg** | *"... mae edrych ar y darlun hirdymor yn golygu na all y strategaeth hon ddilyn yr un patrwm â rhai blaenorol. Mae hyn yn adlewyrchu'r awydd i osod cyfeiriad uchelgeisiol a gwirioneddol strategol ar gyfer pob maes sy'n dylanwadu ar yr iaith. Mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod angen creadigrwydd os am gyrraedd miliwn. Mae edrych ar y tymor hir yn cyd-fynd â chydnabyddiaeth y Llywodraeth bod effaith cynllunio ieithyddol yn rhywbeth y gellir ei fesur fesul cenhedlaeth."* |
| • **Dylid comisiynu Comisiynydd y Gymraeg i wneud asesiad annibynnol o effaith iaith yr holl wariant ar draws holl adrannau'r Llywodraeth.** | *"Os ydym am gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar y raddfa sydd ei hangen, mae angen dechrau gyda chynllunio. Mae hyn yn golygu prif-ffrydio'r Gymraeg fel ei bod yn rhan annatod o gynllunio strategol ar bob lefel."* |

## 6.Prosiectau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg:

### 6.1. Cynllunio'r Gweithlu

| Argymhelliad | Dyfyniadau perthnasol o ddogfen ymgynghorol Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru a gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|
| • **Rhoi cyfrifoldeb i'r Coleg Cymraeg am hyfforddiant athrawon** | *"os am gynyddu'r niferoedd ar y raddfa sydd ei hangen, y cam cyntaf angenrheidiol mewn unrhyw strategaeth fydd creu cyflenwad digonol o athrawon i addysgu plant drwy gyfrwng y Gymraeg."*<br><br>*"Mae angen cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael addysg Gymraeg ac sydd â sgiliau Cymraeg, am mai ond drwy alluogi rhagor o bobl i ddysgu Cymraeg y bydd modd cyrraedd miliwn o siaradwyr."* |
| • **Sefydlu cynllun "Dewch 'nôl" i Gymru ar gyfer athrawon sy'n gweithio mewn gwledydd eraill** | *" Ein blaenoriaeth fwyaf dros y pum mlynedd nesaf felly fydd cynyddu capasiti'r system addysg i ddiwallu'r angen i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, ac i ddiwallu'r angen i wella sut caiff y Gymraeg ei haddysgu yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg. Mae hynny'n golygu hyfforddi athrawon newydd a gwella sgiliau'r athrawon presennol."* |

| | |
|---|---|
| | *"os am gynyddu'r niferoedd ar y raddfa sydd ei hangen, y cam cyntaf angenrheidiol mewn unrhyw strategaeth fydd creu cyflenwad digonol o athrawon i addysgu plant drwy gyfrwng y Gymraeg."*<br><br>*"Cynyddu'n sylweddol nifer yr athrawon a'r ymarferwyr blynyddoedd cynnar sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn ein galluogi i addysgu rhagor o blant a phobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg."* |
| • **Sefydlu cynllun gyda manteision ariannol er mwyn annog pobl i symud o'r byd gwaith i ddysgu drwy'r Gymraeg, drwy gynllun sy'n galluogi pobl i weithio'n rhan amser neu bobl sydd wedi ymddeol i addysgu drwy'r Gymraeg** | *"Ein blaenoriaeth fwyaf dros y pum mlynedd nesaf felly fydd cynyddu capasiti'r system addysg i ddiwallu'r angen i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, ac i ddiwallu'r angen i wella sut caiff y Gymraeg ei haddysgu yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg. Mae hynny'n golygu hyfforddi athrawon newydd a gwella sgiliau'r athrawon presennol."*<br><br>*"os am gynyddu'r niferoedd ar y raddfa sydd ei hangen, y cam cyntaf angenrheidiol mewn unrhyw strategaeth fydd creu cyflenwad digonol o athrawon i addysgu plant drwy gyfrwng y Gymraeg."*<br><br>*"Mae angen cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael addysg Gymraeg ac sydd â sgiliau Cymraeg, am mai ond drwy alluogi rhagor o bobl i ddysgu Cymraeg y bydd modd cyrraedd miliwn o siaradwyr."* |
| • **Ariannu'r gwaith o sefydlu marchnad lafur Gymraeg a arweinir gan Fentrau Iaith Cymru** | *"Creu gweithlu sydd â'r sgiliau addas i addysgu a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg"* |
| • **Adeiladu ar lwyddiant Cam wrth Gam – prosiect a gafodd ei redeg gan y Mudiad Meithrin** | *"Cynyddu'n sylweddol nifer yr athrawon a'r ymarferwyr blynyddoedd cynnar sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn ein galluogi i addysgu rhagor o blant a phobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg."*<br><br>*"Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu gweithio drwy'r Gymraeg mewn nifer o feysydd arbenigol a gwasanaethau, fel bod gwasanaethau Cymraeg ar gael i'r bobl sy'n eu dewis."* |

## 6.2. Addysg

| Argymhelliad | Dyfyniadau perthnasol o ddogfen ymgynghorol Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru a gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|
| • **Ymestyn cyfrifoldeb y Coleg Cymraeg i holl faes addysg ôl-16** | *"Mae angen cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael addysg Gymraeg ac sydd â sgiliau Cymraeg, am mai ond drwy alluogi rhagor o bobl i ddysgu Cymraeg y bydd modd cyrraedd miliwn o siaradwyr."* |

| | |
|---|---|
| • **Cronfa i gefnogi sefydliadau ac ymarferwyr addysg i weithredu argymhellion yr Athro Sioned Davies ynghylch dysgu'r Gymraeg fel rhan o'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd** | *"Mae angen cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael addysg Gymraeg ac sydd â sgiliau Cymraeg, am mai ond drwy alluogi rhagor o bobl i ddysgu Cymraeg y bydd modd cyrraedd miliwn o siaradwyr."*<br><br>Dywed y Llywodraeth y bydd y cwricwlwm newydd ar gael i ysgolion yn 2018 ac yn cael ei defnyddio ym hob ysgol erbyn 2021.[3]<br><br>Dywed adroddiad Yr Athro Sioned Davies **-** Bydd **"***angen cynnal hyfforddiant i baratoi athrawon a'u hysbysu o'r gofynion newydd. Byddai angen adnoddau addysgu cenedlaethol newydd hefyd i gyd-fynd â'r datblygiadau."*[4] |
| • **Sefydlu rhaglen cyfnewid athrawon gyda gwledydd eraill yn enwedig rhai sydd ag ieithoedd lleiafrifol er mwyn: (i) uwchraddio sgiliau ein gweithlu; (ii) manteisio ar sgiliau gwledydd eraill; a (iii) gwneud cynnydd ar wella addysg ieithoedd tramor** | *" Ein blaenoriaeth fwyaf dros y pum mlynedd nesaf felly fydd cynyddu capasiti'r system addysg i ddiwallu'r angen i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, ac i ddiwallu'r angen i wella sut caiff y Gymraeg ei haddysgu yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg. Mae hynny'n golygu hyfforddi athrawon newydd a gwella sgiliau'r athrawon presennol."*<br><br>*"os am gynyddu'r niferoedd ar y raddfa sydd ei hangen, y cam cyntaf angenrheidiol mewn unrhyw strategaeth fydd creu cyflenwad digonol o athrawon i addysgu plant drwy gyfrwng y Gymraeg."*<br><br>*"Mae angen cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael addysg Gymraeg ac sydd â sgiliau Cymraeg, am mai ond drwy alluogi rhagor o bobl i ddysgu Cymraeg y bydd modd cyrraedd miliwn o siaradwyr."*<br><br>*"Cynyddu'n sylweddol nifer yr athrawon a'r ymarferwyr blynyddoedd cynnar sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn ein galluogi i addysgu rhagor o blant a phobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg."* |
| • **Sefydlu ac ehangu canolfannau i hwyrddyfodiad a throchi ym mhob sir, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn gweithredu ar yr un patrwm â'r gyfundrefn yng Ngwynedd** | *"Cysoni ac ehangu'r ddarpariaeth drochi i hwyrddyfodiaid yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf."* |
| • **Sefydlu rhaglen i godi ymwybyddiaeth o fanteision addysg amlieithog** | *"Mae angen cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael addysg Gymraeg ac sydd â sgiliau Cymraeg, am mai ond drwy alluogi rhagor o bobl i ddysgu Cymraeg y bydd modd cyrraedd miliwn o siaradwyr."* |

[3] http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?lang=cy
[4] http://gov.wales/docs/dcells/publications/130926-review-of-welsh-second-lan-cy.pdf

| | |
|---|---|
| • **Sicrhau bod trafnidiaeth yn rhad ac am ddim i ysgolion Cymraeg** | *"Mae angen cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael addysg Gymraeg ac sydd â sgiliau Cymraeg, am mai ond drwy alluogi rhagor o bobl i ddysgu Cymraeg y bydd modd cyrraedd miliwn o siaradwyr. "* |
| • **Cynnal, sefydlu ac ailsefydlu llety penodedig Cymraeg ar gyfer myfyrwyr ym mhob prifysgol yng Nghymru wedi ei fodelu ar neuadd Pantycelyn gyda'r asedau yn nwylo'r Coleg Cymraeg neu brifysgolion**<br><br>*Gellir ystyried opsiynau ariannol yn cynnwys arian cyfalaf, cronfa benthyg ac ysgoloriaethau i fynd i lety cyfrwng Cymraeg.*<br><br>*Mae manylion am gostau ailagor Neuadd Pantycelyn ar gael[5] mewn adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan Brifysgol Aberystwyth.* | *"Sicrhau bod rhagor o leoedd yn bodoli lle mae'n hollol amlwg mai'r Gymraeg yw'r iaith naturiol, fel ei bod yn teimlo'n ddiogel defnyddio'r Gymraeg fel iaith awtomatig."*<br><br>*"Cefnogi cymunedau neu gymdogaethau lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol fel yr iaith gyffredin."*<br><br>*"Datblygu cyfleoedd arloesol er mwyn galluogi dysgwyr i fod yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn gymdeithasol ac o fewn y teulu."*<br><br>*"Amcan: Sicrhau bod sefydliadau addysg yn paratoi pobl ifanc i fod yn hyderus i ddefnyddio'u Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol a chymdeithasol."*<br><br>*"Y bwriad yw sicrhau bod y Gymraeg yn rhan berthnasol, ddeniadol o fywyd o'r crud i'r bedd."* |
| • **Cronfa Ychwanegol er mwyn targedu sectorau gwaith allweddol e.e. y gweithlu addysg, gofal a chwaraeon, Addysgu Gweithwyr Allweddol, megis athrawon a staff cynorthwyol addysg, chwaraeon, gofal ac iechyd er mwyn sicrhau twf yn nefnydd yr iaith a sicrhau gwasanaethau Cymraeg digonol** | *"Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu gweithio drwy'r Gymraeg mewn nifer o feysydd arbenigol a gwasanaethau, fel bod gwasanaethau Cymraeg ar gael i'r bobl sy'n eu dewis."* |
| • **Sefydlu rhaglen dysgu Cymraeg yn y gwaith 'Hyfforddi'r Hyfforddwyr' er mwyn cynyddu'n sylweddol y nifer sy'n dysgu'r iaith** | *"Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu gweithio drwy'r Gymraeg mewn nifer o feysydd arbenigol a gwasanaethau, fel bod gwasanaethau Cymraeg ar gael i'r bobl sy'n eu dewis."* |
| • **Darparu cyrsiau dysgu Cymraeg i oedolion am ddim** | *"Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu gweithio drwy'r Gymraeg mewn nifer o feysydd arbenigol a gwasanaethau, fel bod gwasanaethau Cymraeg ar gael i'r bobl sy'n eu dewis."*<br><br>Mae cyrsiau Saesneg ar gael am ddim i fewnfudwyr, drwy'r rhaglen ESOL (English for Speakers of Other Languages) ond mae'n rhaid talu am gyrsiau Cymraeg. |
| • **Adnoddau ychwanegol ar gyfer symud cyrff at weinyddiaeth fewnol Gymraeg, gan gynorthwyo gyda'r gwaith o ddynodi mwy o swyddi gyda sgiliau Cymraeg hanfodol** | *"Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu gweithio drwy'r Gymraeg mewn nifer o feysydd arbenigol a gwasanaethau, fel bod gwasanaethau Cymraeg ar gael i'r bobl sy'n eu dewis."* |

[5] https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/theuniversity/pantycelyn/Adroddiad-(TERFYNOL---cyfansawdd---elfennau-wedi-eu-dileu).pdf (tudalen 24 a 25)

## 6.3. Pobl

| Argymhelliad | Dyfyniadau perthnasol o ddogfen ymgynghorol Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru a gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|
| • **Buddsoddiad sylweddol yn y prosiect Cymraeg i Blant er mwyn gwella trosglwyddiad yr iaith rhwng rhieni a phlant**<br><br>Credwn fod angen oddeutu £500,000 *ychwanegol* y flwyddyn ar gyfer Cymraeg i Blant (y gyllideb ar gyfer 2016/17 yw £500,000) | *"Mae'r blynyddoedd cynnar hefyd yn hanfodol, oherwydd y cynharaf y mae plentyn yn cael cyffyrddiad â'r iaith, y mwyaf o gyfle sydd ganddo i ddod yn rhugl."*<br><br>*"Yn ogystal â dysgu, bydd yn hollbwysig cynyddu nifer y bobl sy'n trosglwyddo Cymraeg i'w plant."*<br><br>*"Gweithredu yn y tymor byr: y pum mlynedd cyntaf ... bydd ein rhaglen Cymraeg i Blant yn flaenoriaeth bwysig"* |
| • **Mentrau Iaith - Prosiectau peilot mewn ardaloedd o dwf er mwyn adfer yr iaith mewn ardaloedd daearyddol** | *"Cefnogi cymunedau neu gymdogaethau lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol fel yr iaith gyffredin."*<br><br>*"Parhau i gefnogi cyrff a chanolfannau sy'n cynnig arlwy Cymraeg yn ddiamod"* |
| • **Comisiynydd y Gymraeg – Arian ychwanegol i weithredu a chynghori am Nodyn Cyngor Technegol 20 a Deddf Cynllunio Cymru 2015** | *"Cefnogi cymunedau neu gymdogaethau lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol fel yr iaith gyffredin."* |

## 6.4. Normaleiddio

| Argymhelliad | Dyfyniadau perthnasol o ddogfen ymgynghorol Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru a gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|
| • **Sefydlu Corff Datblygu Economi - Antur Iaith[6] gan gynnwys:**<br>  ○ **Pedwar parc/clwstwr busnes cyfrwng Cymraeg**<br>  ○ **Deorfa Wledig Gymraeg**<br><br>*Credwn y byddai cost o oddeutu £1 miliwn refeniw y flwyddyn ar gyfer y corff datblygu economi a byddai angen oddeutu £1 - £5 miliwn o arian cyfalaf ar gyfer y parciau/clystyrau busnes cyfrwng Cymraeg.* | *"Sicrhau bod rhagor o leoedd yn bodoli lle mae'n hollol amlwg mai'r Gymraeg yw'r iaith naturiol, fel ei bod yn teimlo'n ddiogel defnyddio'r Gymraeg fel iaith awtomatig. "*<br><br>*"Cefnogi cymunedau neu gymdogaethau lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol fel yr iaith gyffredin."* |

[6] http://cymdeithas.cymru/sites/default/files/iaith%20gwaith%20DIGIDOL.pdf

| | |
|---|---|
| • **Sefydlu Cronfa Ariannu Cynnal Gwasanaethau ac Adnoddau Cymunedol** sy'n cynnig symiau cymharol fach o arian i grwpiau cymunedol megis Merched y Wawr er mwyn cynnal ac ehangu gwasanaethau a gofodau lle mae'r Gymraeg yn brif iaith y lleoliad neu'r grŵp | *"Sicrhau bod rhagor o leoedd yn bodoli lle mae'n hollol amlwg mai'r Gymraeg yw'r iaith naturiol, fel ei bod yn teimlo'n ddiogel defnyddio'r Gymraeg fel iaith awtomatig."*<br><br>*"Cefnogi cymunedau neu gymdogaethau lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol fel yr iaith gyffredin."* |

## 6.5. Cefnogi

| Argymhelliad | Dyfyniadau perthnasol o ddogfen ymgynghorol Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru a gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|
| • **Sefydlu darlledwr aml-lwyfan Cymraeg newydd**<br><br>*"Gan gymryd bod costau cynhyrchu ar y we yn rhatach na chostau cynhyrchu teledu traddodiadol, awgrymir cost gychwynnol o £10 miliwn er mwyn sefydlu'r gwasanaeth newydd yn y flwyddyn ariannol gyntaf, gyda £5 miliwn yn flynyddol ar ôl hynny."*[7]<br><br>Cynnig Cymdeithas yr Iaith am ardoll / treth newydd a fyddai'n codi dros £10 miliwn y flwyddyn:<br><br>*"Dylid cyflwyno treth ar hysbysebion ac elw cwmnïau mawrion megis Gwgl, Facebook a Sky er mwyn ariannu gwasanaeth Cymraeg newydd."*[8] | *"... er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n iaith fodern a pherthnasol, a'i bod yn hollbwysig buddsoddi mewn datblygiadau technolegol – maes lle mae'r dirwedd yn newid yn gyson – er mwyn sicrhau bod modd defnyddio'r Gymraeg mewn cymaint o gyd-destunau â phosibl."*<br><br>*"Parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth dechnolegol a digidol er mwyn galluogi pawb i fyw eu bywydau drwy'r Gymraeg."*<br><br>*"Bod cyfryngau amrywiol a pherthnasol ar gael yn Gymraeg."*<br><br>*"Sut: Er nad yw darlledu wedi ei ddatganoli, dylanwadu er mwyn sicrhau bod yr arlwy o ran teledu a radio ac ar yr holl wahanol fathau o gyfryngau yn parhau'n gyfoes ac yn berthnasol i siaradwyr Cymraeg o bob oedran."*<br><br>Noder mai cyfraniad Llywodraeth yr Alban i MDG Alba yw £13 miliwn tra mai cyfraniad Llywodraeth Cymru i S4C yw £0 miliwn. |

## 6.6. Hawliau

| Argymhelliad | ***Dyfyniadau perthnasol o ddogfen ymgynghorol Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru a gwybodaeth ychwanegol*** |
|---|---|

[7] http://cymdeithas.cymru/dogfen/darlledwr-amlblatfform-cymraeg-newydd

[8] http://cymdeithas.cymru/dogfen/ariannu-darlledu-cymraeg-treth-newydd-i-ariannu-darparydd-amlgyfryngol-cymraeg-newydd

| | |
|---|---|
| • **Sefydlu Cyngor y Gymraeg fel corff hyrwyddo'r Gymraeg corfforaethol ar wahân i'r Comisiynydd.**<br><br>Credwn fod angen eglurder am gyfrifoldeb dros hyrwyddo'r Gymraeg. Mae nifer o broblemau wedi deillio o'r ffaith nad oes eglurder am bwy sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg. Mae nifer o benderfyniadau wedi dangos diffyg meddwl strategol, er enghraifft y penderfyniad i dorri prosiect Twf. Hefyd nid oedd eglurder ynglŷn â phwy oedd yn gyfrifol am hyrwyddo bodolaeth y Safonau a'r newidiadau yn y gyfraith.[9] | *"Datblygu cydbwysedd gwell rhwng hyrwyddo, deddfwriaeth a rheoleiddio."* |
| • **Comisiynydd y Gymraeg – Dychwelyd y gyllideb i lefelau 2014/15 a rhoi sicrwydd hirdymor er mwyn i'r gyllideb gynyddu yn ôl chwyddiant** | *"Nod yr hawliau cyfredol yw gwella arlwy'r sefydliadau sydd yn dod o dan y safonau.*<br>*Mae angen ysgogi unigolion i fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r hawliau hyn yn eu cynnig.*<br>*Y nod hirdymor yw symud at sefyllfa lle mae'r hawliau hyn wedi eu gwreiddio fel rhan naturiol o wasanaethau."* |
| • **Comisiynydd y Gymraeg – Cyllideb ar gyfer rhaglen farchnata'r hawliau newydd i'r Gymraeg a ddaw yn sgil pasio Safonau'r Gymraeg** | *"Mae angen ysgogi unigolion i fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r hawliau hyn yn eu cynnig."* |

## 7. Amodau ar gyfer cyllidebau prif-ffrwd

7.1. Wrth reswm, mae'n rhaid, wrth ystyried effaith cyllideb ar y Gymraeg, asesu effaith cyllidebau y tu hwnt i'r 0.16% o'r gyllideb a werir ar y Gymraeg ar hyn o bryd. Mae'n hollbwysig bod y cyllidebau prif-ffrwd, sef y 99.84% o'r gyllideb, yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

7.2. Mae'n amlwg bod tanfuddsoddi difrifol ar weithgareddau cyfrwng Cymraeg yn nifer o gyllidebau prif ffrwd y Llywodraeth – gan gynnwys addysg ac iechyd. Mae'r Llywodraeth yn honni mai 'diffyg galw' sy'n achosi hynny – credwn fod hynny'n amlygu meddylfryd hen-ffasiwn y gwasanaeth sifil, sy'n meddwl bod gwasanaeth Saesneg yn hanfodol ac yn ddiofyn, tra bod gwasanaeth Cymraeg yn rhywbeth atodol ac yn ddewisol.

- O gyllideb sydd bron yn £17 miliwn ar gyfer addysg i oedolion yn y gymuned, mae llai na phedair mil o bunnau wedi eu gwario ar gyrsiau cyfrwng Cymraeg, yn ôl gwybodaeth a ryddhawyd i Gymdeithas yr Iaith gan Lywodraeth Cymru o dan y ddeddf rhyddid gwybodaeth am wariant ym mlynyddoedd ariannol 2009/10 i 2011/12. Yn wir, mae nifer o brif gyllidebau'r Llywodraeth yn ariannu'r nesaf peth i ddim darpariaeth yn Gymraeg, gyda thros 99% o'r arian yn mynd ar ddarpariaeth Saesneg.

---

[9] http://cymdeithas.cymru/sites/default/files/CyIG%20Cryfhau%20Mesur%20A4(1).pdf

- Yn ôl ein gwybodaeth, dros yr un cyfnod o dair blynedd, o blith 90,477 prentisiaeth a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, dim ond 354 oedd drwy gyfrwng y Gymraeg, sef llai na phedair prentisiaeth ym mhob mil.
- Mae'r ffigyrau hefyd yn dangos mai 0.02% yn unig o'r un deg saith miliwn o bunnoedd a wariwyd ar ddysgu oedolion yn y gymuned dros dair blynedd, neu £2 am bob £10,000, a ddefnyddiwyd ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg. Yn un o'r blynyddoedd, ni wariwyd yr un geiniog o'r gyllideb hon ar addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dros yr un cyfnod, 0.3% yn unig, neu £3 ymhob £1000, o wariant ar Ddysgu yn Seiliedig ar Waith a wariwyd ar hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.

7.3. Eleni, gwnaed yr un cais rhyddid gwybodaeth gan Gymdeithas yr Iaith[10] ond gwrthodwyd rhyddhau gwybodaeth ynghylch addysg i oedolion yn y gymuned a Dysgu yn Seiliedig ar Waith. Fodd bynnag, rhyddhawyd gwybodaeth am brentisiaethau[11] a ddangosodd bod 179,515 allan o gyfanswm o 189,695 prentisiaeth a gynhaliwyd yng Nghymru ers 2011 wedi eu cynnal drwy gyfrwng y Saesneg, sef naw deg pump y cant. Yn ôl yr ystadegau, am gyfnod o dair blynedd rhwng 2011 a 2014, roedd 96% o'r prentisiaethau yn Saesneg. Bu cynnydd bach iawn yng nghanran y cyrsiau sy'n cynnwys elfen Gymraeg y llynedd, gyda 95% yn cael eu cynnal yn Saesneg.

| **Argymhellion** |
|---|
| • Cynyddu canran y prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg i 20% |
| • Amod ar arian cyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif – ni ddylai'r un ysgol na sefydliad addysg newydd agor gyda chanran is o addysg cyfrwng Cymraeg na 50%, neu drothwy uwch mewn siroedd lle mae mwyafrif yr ysgolion yn rhai cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. |
| • Addysg i Oedolion yn y gymuned – 20% o'r cyrsiau yn rhai cyfrwng Cymraeg |
| • Sicrhau bod y buddsoddiad mewn Technoleg Gwybodaeth yn sgil adroddiad Donaldson yn cyd-fynd â rhaglen o wella sgiliau iaith y gweithlu addysg er mwyn cyflwyno mwy a mwy o'r pwnc drwy'r Gymraeg |
| • Sefydlu fformiwla cyllido newydd i addysg uwch, gan glustnodi arian i'r Coleg Cymraeg er mwyn sicrhau cyfran gynyddol o addysg cyfrwng Cymraeg |
| • Y Llywodraeth ac asiantaethau cyhoeddus i anelu i gomisiynu cyfran gynyddol o'u prosiectau ymchwil drwy'r Coleg Cymraeg |
| • Sefydlu amod ariannol drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i sicrhau cynnal a chynyddu nifer y neuaddau Cymraeg eu hiaith, boed hynny drwy brifysgolion neu'r Coleg Cymraeg |
| • Gweithredu argymhelliad yr adroddiad ynghylch yr Economi ac Iaith i osod amod iaith ar bob grant a roddir gan y Llywodraeth i fusnesau: *"Mae'r Grŵp yn argymell y dylai fod yn ofynnol i fusnesau sy'n cael grant gan Lywodraeth Cymru ddangos eu bod yn gallu darparu gwasanaeth yn ddwyieithog. Dylai unrhyw arwyddion neu ddeunyddiau hysbysebu sy'n gysylltiedig â phrosiect sy'n derbyn cymorth grant fod yn ddwyieithog."* – y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd[12] |
| • Sefydlu annibyniaeth ariannol i Gomisiynydd y Gymraeg drwy ei hariannu yn yr un modd â'r Archwilydd Cyffredinol gyda'r arian yn dod yn syth fel canran o'r grant bloc |
| • Sicrhau, dros amser, bod grantiau'r Llywodraeth ar gyfer clybiau ieuenctid a gweithgareddau allgyrsiol i blant dim ond yn cael eu dosrannu i weithgareddau Cymraeg eu hiaith |

---

[10] http://cymdeithas.cymru/sites/default/files/ADP%20-%20Ll(71877)%20Mr%20Nosworthy(1).pdf
[11] http://cymdeithas.cymru/newyddion/diffyg-prentisiaethau-cyfrwng-cymraeg-yn-bryder-mawr
[12] http://llyw.cymru/topics/businessandeconomy/welsh-economy/wled-task-finish-group/?lang=cy

| | |
|---|---|
| • | Dylai fod gofyniad ar yr holl glybiau ieuenctid i gael staff cyfrwng Cymraeg – bydd hyn yn cyd-fynd â chynorthwyo awdurdodau lleol i gwrdd â’u dyletswyddau o dan y Safonau |
| • | Dylid symud at un darparydd ar gyfer addysg cyn-ysgol a fydd yn sefydliad Cymraeg a fydd, dros amser, yn symud holl ddarpariaeth cyn-ysgol i fod yn ddarpariaeth uniaith Gymraeg |
| • | Cyfuno Menter a Busnes a Mentrau Iaith er mwyn creu Mentrau Iaith a Gwaith |
| • | Rhoi arian ar gyfer clybiau ieuenctid i fudiadau Cymraeg yn unig |
| • | Prif-ffrydio’r Gymraeg yn rhaglenni Dechrau’n Deg a Chymunedau’n Gyntaf |

## 8.Sefydliadau Allweddol – yr Argyfwng Ariannol Presennol

8.1. I gloi, hoffem dynnu sylw at sefyllfa fregus ac argyfyngus nifer o sefydliadau yn dilyn penderfyniadau ariannol dros y blynyddoedd diwethaf.

### 8.1. Comisiynydd y Gymraeg

8.1.1. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi rhybuddio bod toriadau difrifol i'w chyllideb yn peryglu ei hannibyniaeth a'i gweithgareddau. Mewn llythyr at y pwyllgor cyllid ym mis Ionawr 2016, dywedodd Comisiynydd y Gymraeg:

> *“Rwyf wedi derbyn toriadau ariannol i’m cyllideb dros y 2 flynedd diwethaf, gyda thoriad pellach ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. I’w chymharu â chyllideb o £4,100,000 ar gyfer 2013-14, derbyniwyd toriad o £410,000 (10%) ar gyfer 2014-15 a thoriad o £300,000 (8%) ar gyfer 2015-16.*
>
> *“Er nad yw cyllideb drafft Llywodraeth Cymru yn nodi’n benodol beth fydd y gyllideb ar gyfer 2016- 17, derbyniais lythyr gan y Prif Weinidog ar 23 Rhagfyr yn fy hysbysu o doriad arall o 10%. Byddai hyn yn doriad pellach o £339,000, gan adael cyllideb flynyddol o £3,051,000. Golyga hynny bydd y sefydliad wedi derbyn toriadau mewn termau ariannol o 26% mewn 3 blynedd (32% mewn termau real ar ôl ystyried effaith chwyddiant).”*

8.1.2. Mewn nodyn briffio cyn etholiadau'r Cynulliad, dywedodd y Comisiynydd:

> *"Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gorff annibynnol, ond Gweinidogion Cymru sydd yn ariannu a phenodi’r swydd. Bydd angen i lywodraeth nesaf Cymru sicrhau mai i’r Cynulliad Cenedlaethol fydd y Comisiynydd yn atebol yn y dyfodol ac nid i Lywodraeth Cymru. Dyma linell atebolrwydd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, a chred y Comisiynydd mai dyma’r llinell atebolrwydd mwyaf priodol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg."*

### 8.2. Coleg Cymraeg

8.2.1. Fe dorrwyd cyllideb y Coleg yn gwbl anghymesur gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch eleni ac yn groes i faniffesto'r Ysgrifennydd Addysg. Datganodd maniffesto etholiadau 2016 y Democratiaid Rhyddfrydol:

> *"Hyrwyddwn addysg Gymraeg drwy: ... Ehangu cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys y sector Addysg Bellach i gefnogi cydweithredu rhwng colegau Addysg Bellach, a rhwng y sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch, wrth ddatblygu a darparu deunyddiau addysgu a dysgu drwy'r Gymraeg, a **diogelu'i gyllid**."*[13]

[13] https://d3n8a8pro7vhmx.cloudfront.net/ldwales/pages/1353/attachments/original/1460627344/Maniffesto_(Cym)_WLD_-_web_compact.pdf?1460627344

8.2.2. Buodd y Prif Weinidog yn gwbl glir mewn cyfarfod ym mis Tachwedd 2015 gyda Chymdeithas yr Iaith ei fod yn gwbl ymrwymedig i'r Coleg Cymraeg a ''moyn gweld [gwaith y Coleg] yn parhau [ac yn] tyfu".

8.2.3. Fodd bynnag, gwnaed toriad o 8.3% i'r Cyngor Cyllido gan Lywodraeth Cymru, ond gwnaed toriad o 34% i'r Coleg Cymraeg gan y Cyngor Cyllido ym mis Mai eleni[14], i lawr o £8.8 miliwn yn 2015/16 i £5.8 miliwn eleni.

8.2.4. Mae'r Coleg bellach yn defnyddio oddeutu £1 miliwn o ddyraniadau o'u cronfeydd wrth gefn er mwyn cynnal eu gweithgareddau – sefyllfa hollol anghynaliadwy.

8.2.5. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Addysg adolygiad o waith y Coleg Cymraeg ym mis Awst eleni. Ar Awst 2[il] 2016, ail-ddatganodd y Democratiaid Rhyddfrydol fel plaid ei bod yn ymgyrchu dros ymestyn cylch gwaith y Coleg i gynnwys addysg ôl-16[15].

## 8.3. Cymraeg i Oedolion

8.3.1. Gwnaed toriadau difrifol i Gymraeg i Oedolion sydd wedi cyfrannu at golli nifer o swyddi ac sydd wedi ategu at y pryderon a achosir gan ail-strwythuro'r gwasanaethau. Ym mis Ionawr 2014, gwnaed toriad o 8% i gyllidebau yn y maes ar gyfer y flwyddyn academaidd 2014/15. Ym mis Gorffennaf 2014, anfonodd Llywodraeth Cymru lythyr yn dweud y bydd toriad pellach o 7%. Rhwng y Gynhadledd Fawr a gynhaliwyd yn 2012 a 2015, cwtogwyd cyllideb darparwyr yn y maes gan £2.3 miliwn.

## 8.4. Twf / Cymraeg i Blant

8.4.1. Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai rhaglen Twf, a oedd yn cael ei rhedeg gan Gwmni Iaith, sy'n ymdrech i wella trosglwyddiad y Gymraeg yn y teulu, yn dod i ben ac y byddai rhaglen y Mudiad Meithrin 'Cymraeg i Blant' yn dechrau yn ei le o Ebrill 1[af] 2016 ymlaen. Roedd gan Twf gyllideb o oddeutu £750,000 ar gyfer y flwyddyn 2015/16. Cyllideb o £500,000 sydd gan y Mudiad Meithrin i gynnal prosiect 'Cymraeg i Blant' eleni.

8.4.2. Rhoddir cryn bwyslais yn nogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru ynghylch ei strategaeth iaith ar drosglwyddo'r iaith yn y teulu, felly disgwylir buddsoddiad ychwanegol yn y maes hwn.

# 9. Casgliadau

9.1. Os yw'r Llywodraeth o ddifrif am ei huchelgais i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, bydd rhaid cael buddsoddiad sylweddol ychwanegol. Fel arall, geiriau gwag yn unig yw'r uchelgais. Argymhellwn fuddsoddiad o dros £100 miliwn ychwanegol er mwyn sicrhau bod targedau'r Llywodraeth yn cael eu gwireddu. Daw manteision economaidd ac addysgol yn sgil y buddsoddiad hwn yn ogystal â buddion diwylliannol sylweddol. Heb os, ac fel mae'r Llywodraeth yn ei gydnabod, mae'n rhaid buddsoddi'n sylweddol cyn gynted â phosibl er mwyn creu gweithlu addysg sy'n gallu creu'r miliwn o siaradwyr. Mae Gweinidogion wedi dweud hynny eu hunain. Nawr yw'r amser i fuddsoddi, dyma'r cyfle.

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Medi 2016

[14] http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/36347962
[15] http://www.demrhyddcymru.cymru/expand_coleg_cymraeg_remit_to_include_further_education_say_welsh_lib_dems